**Penallta House,**
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Tŷ Penallta,**
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Sharon Hughes
(Rhif Ffôn: 01443 864281 Ebost: hughesj@caerphilly.gov.uk)

**Dyddiad: 12 Ebrill 2024**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffrydio'n fyw ac yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n siarad ar gael yn gyhoeddus i bawb trwy'r recordiad ar wefan y Cyngor: www.caerffili.gov.uk

Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae angen o leiaf 3 diwrnod gwaith o rybudd os byddwch chi'n dymuno gwneud hynny. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais.

I bwy bynnag a fynno wybod,

Bydd cyfarfod y **Cyngor** yn cael ei gynnal yn y Siambr, Tŷ Penallta a thrwy Microsoft Teams ar **Dydd Iau, 18fed Ebrill, 2024** am **5.00 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall aelodau'r Cyhoedd neu'r Wasg fynychu'n bersonol yn Nhŷ Penallta neu gallant weld y cyfarfod yn fyw drwy'r ddolen ganlynol: https://civico.net/caerphilly

Yr eiddoch yn gywir,

**Christina Harrhy**
PRIF WEITHREDWR

## A G E N D A

Tudalennau

1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

3 Cyflwyno Gwobrau.

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

4 Cyngor ar 27ain Chwefror 2024.
1 - 16

I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol:-

5 Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Amcanion A Chamau Gweithredu 2024-2028.
17 - 60

6 Uwchgynllun Coed Duon Fwyaf.
61 - 224

7 Cefnogi'r gwaith o ran mynediad electronig yr Aelodau at wybodaeth a defnyddio Band Eang.
225 - 228

8 Derbyn cyhoeddiadau gan y Maer.
229 - 230

9 I dderbyn deisebau o dan Reol Gweithdrefn 28(3).

10 I dderbyn ac i ateb cwestiynau a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 10 (2).

Cwestiwn gan y Cynghorydd L. Whittle i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan.

A wnaiff Arweinydd y Cyngor roi esboniad llawn am yr oedi unwaith eto wrth agor Ffos Caerffili. Mae aelodau'n cydnabod bod gohirio'r agoriad gwreiddiol rhwng mis Medi 2023 a mis Ionawr 2024 wedi colli masnach y Nadolig. Yna, roedd oedi pellach yn golygu colli masnach arwerthiannau Ionawr. Nawr, mae gohirio tan fis Ebrill wedi colli masnach y Pasg.

A all Arweinydd y Cyngor roi gwybod i'r Cyngor a wnaeth yr oedi wrth agor Ffos Caerffili arwain at unrhyw wariant ychwanegol uwchlaw'r tendr gwreiddiol. Os do, faint yw'r gost honno?

11 I dderbyn ac i ateb cwestiynau a dderbyniwyd o dan Reol Gweithdrefn 10(3).

Cwestiwn gan y Cynghorydd T. Heron i'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, y Cynghorydd E. Forehead.

A all yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwysau ar y gwasanaethau cymdeithasol?

12 Derbyn cwestiynau o dan Reol Gweithdrefn 10(12) a bydd ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu ar eu cyfer.

**Cylchrediad:**
Pob Aelod a Swyddog Priodol

**SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.